

CROESO
/
YSGOL GYNRADD
GYMRAEG
LLWYNCELYN



Prostectws yr Ysgol 2018 – 19

*“ Meithrin plant y dyfodol ar wreiddiau
ein gorffennol”*

Staff a phlant YGG Llwyncelyn 2015

Annwyl Rieni,

Bwriad y llyfryn hwn yma yw rhoi rhywfaint o wybodaeth am fywyd yn yr ysgol lwyddiannus, boblogaidd a hapus yma.

Ers mis Medi 2018 mae gennym 308 o blant wedi'u cofrestru yn yr ysgol. Rydym yn awyddus i ddarparu'r dechrau gorau posib i'ch plentyn, un sy'n cynnig profiadau cymdeithasol a diwylliannol mewn addysg eang a chytbwys er mwyn iddynt gyrraedd y safonau uchaf posib.

Rydym yn ceisio cyrraedd y nod hwn mewn amgylchedd gofalgac ac ysbrydoledig, un fydd yn helpu'r unigolyn i ddatblygu yn annibynnol o fewn cymuned eu hysgol ar gymuned ehangach.

Mae addysg ein plant yn bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol, ac yn Llwynecelyn rydym yn gobeithio datblygu a chadw'n gryf y partneriaethau gweithredol rhwng rhieni/gwarchodwyr a'r plant dan ein gofal.

Mae gan y plant un cyfle yn unig ac rydym yn ymrwymo mewn cyfleoedd cyfartal i bawb, dyma gyfrifoldeb rydym yn cymryd o ddifri.

Mae addysg gydol oes yn rhan allweddol o ethos Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynecelyn. Mae'r sgiliau mae'r plant yn cyflawni yma yn cael effaith hirdymor ar eu datblygiad trwy gydol eu bywydau. Rydym yn ysgol sy'n edrych yn allanol ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol mewn Byd sy'n newid yn gyflym.

Mae ein gweledigaeth newydd yn un sy'n tanlinelli'r angen i baratoi plant heddiw am ddyfodol modern a digidol heb anghofio pam wir y mae ein rhieni yn danfon eu plant i Llwynecelyn - disgyblaeth, safonau a diwylliant. Dyma werthoedd Llwynecelyn a dyma beth fydd ein sylfaen wrth i ni wynebu heriau newydd a chyffroes.

Mae Ysgol Llwynecelyn yn un teulu mawr hapus a charedig. Mae rhieni a ffrindiau oll yn derbyn croeso mawr.

Mae bathodyn yr ysgol yn rhoi neges glir a phwerus.
"Eu hiaith a gadwant"

Edrychaf ymlaen at ddod i'ch adnabod chi a'ch plentyn wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfa yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynecelyn.

Darllenwch ein adroddiad diweddar gan Estyn ar www.estyn.gov.uk

Mr Mark Rees

GWYBODAETH I RIENI

CYFEIRIAD YR YSGOL

Ffordd y Grug

Llwyncelyn

PORTH

Rhondda

CF39 9TL

Ffon: (01443) 562220

Ffacs: (01443) 562221

E-bost: admin.ygglwyncelyn@rctcbc.gov.uk

Gwefan: www.ygglwyncelyn.cymru

EDUCATION CENTRE

Cyfarwyddwr Addysg

Tŷ Trevithick

Abercynon

Aberpennar

CF45 4UQ

Ffon: (01443) 744000

Y PRIFATHRO

Mr Mark Rees

DIRPRWY

Mr G Ashcroft

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR

Mr B Cradle

STAFF DYSGU

DOSBARTHIADAU

| | |
|--------------------------------|--|
| Blwyddyn 6 | Mrs E Llywelyn - Williams |
| Blwyddyn 5/6 | Mrs N Brown |
| Blwyddyn 5/4 | Miss C Lister |
| Blwyddyn 4 | Mr G Ashcroft |
| Blwyddyn 3 | Miss L Jôs |
| Blwyddyn 2 | Mrs R Carey |
| Blwyddyn 1/2 | Mrs J Davies |
| Blwyddyn 1/Derbyn | Mrs P Beeforth |
| Derbyn | Mrs V Pitman |
| Meithrin (rhan amser) | Mrs L Lloyd, Miss M Jones, Miss E Stevens |

HLT A **Mrs J Roberts**

Gweinyddesau Cyfnod Sylfaen

Mrs L Lloyd
Mrs C Harris
Mrs C Jones
Mrs D Phillips
Miss M Jones
Mrs T Thomas
Mrs A Edwards
Miss J Mathias
Miss E Stevens

Addysg Arbennig

Mrs M Rees
Miss K Atherton
Miss A Price

Athrawon Offerynnol
Mrs B Roberts (Telyn)

STAFF NAD YW'N DYSGU

Swyddog Gweinyddol:

Mrs O Hardwick

Ysgrifenyddes:

Mrs J Stoyle

Gofalwr:

Mr M Davies

Staff y Gegin:

Miss E Lowe

Mrs M Regan

Mrs S Wilson

Miss J Owen

Mrs J Lewis

Goruchwylwyr:

Mrs L Stevens

Mrs J Emmanuel

Mrs K Owen

Mrs H Rees

Mrs E Jenkins

Mrs K Parker

Mrs P Jones

Mrs A Hawkins

Glanhawyr:

Mrs K Parker

Mrs S Wilson

Mrs E Jenkins

Mrs J Emmanuel

Miss G Cooke

YR YSGOL

Mae ysgol Gymraeg Llwynceilyn yn ysgol i Awdurdod Addysg Leol Rhondda-Cynon-Taf. Mae ar gael i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Rydym yn dysgu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, mae Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc yn yr Adran Iau. Mae Llwynceilyn yn ysgol hapus a chyfeillgar lle bo pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Mae yma groeso cynnes i bawb.

DECHRAU YSGOL/ POLICY DERBYN

*Oherwydd y niferoedd sydd eisiau lle yn YGG Llwynceilyn, yn y gorffennol mae disgyblion wedi gorfod cofrestru gyda'r ysgol wedi eu trydydd ben-blwydd **os oes lle ar gael**. Am ragor o wybodaeth edrychwch aer wefan RCT neu 'Llyfryn Dechrau Ysgol'.*

Mae dechrau ysgol i ambell ddisgybl yn brofiad amhleserus, mae eraill yn setlo yn gyflym ac yn mwynhau bob eiliad o'u diwrnod cyntaf. Fe geisiwn ni wneud y newid o'r cartref i'r ysgol mor llyfn â phosib gan ddefnyddio profiad ac arbenigedd ein staff i benderfynu ar beth sydd orau gan y disgybl. Cyn dechrau'r ysgol, bydd y Prifathro, yr ysgrifenyddes a'r Athrawes Feithrin yn ymweld â'r Meithrinfeydd i drefnu bod y rhieni yn ymweld â'r ysgol. Bydd y Prifathro hefyd yn cwrdd â phob rhiant er mwyn rhoi'r wybodaeth berthnasol a'r ddogfennaeth am YGG Llwynceilyn.

Bydd y disgyblion newydd yn cael eu cyflwyno i ddsbarthiadau'r Blynyddoedd Cynnar mewn grwpiau bach yn nhrefn gronolegol yn ystod tymor yr Hydref, yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae'n bosib na fydd rhai unigolion yn setlo'r un mor gyflym ag eraill, ac yn elwa o addysg ran-amser am gyfnod byr. Os mae hwn yw'r opsiwn gorau, fe weithiwn ni gyda'r rhieni er mwyn sicrhau integreiddio'r plant i addysg amser llawn. Gofynnwn i bob plentyn fynd i'r tŷ bach yn naturiol, heb gymorth CYN dechrau yn yr ysgol. Os ydych blentyn yn trochi yn yr ysgol, yna gofynnwn i chi ddod i newid eich plentyn neu am ganiatâd i newid eich plentyn.

Mae Rhondda Cynon Taf wedi torri'r ddarpariaeth ar gyfer plant Meithrin i ran – amser.

Cofiwch ein polisi drws agored – peidiwch ag ofni gofyn.

AMSEROEDD YSGOL/PRYDLONDEB

Mae'r ysgol yn dechrau am 8.45yb ac yn gorffen am 3.15yp. Mae sesiynau'r bore a'r prynhawn wedi cael eu haddasu er mwyn sicrhau bod yna gydbwysedd rhwng pynciau'r cwricwlwm. Mae amseroedd chwarae'r plant yn ddibynnol ar eu hoedran ond byddwn yn ail edrych ar hyn ers i RCT ad drefnu YGG Llwynceilyn.

Mae'n bwysig fod plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore. Gofynnwn i'r plant beidio cyrraedd iard yr ysgol cyn 8.35yb am resymau diogelwch gan na chewn eu goruchwylio. Mae yna glwb brecwast i'r plant hynny sydd yn dymuno dod i'r ysgol cyn yr amser hwn. Cysylltwch â'r ysgol am ragor o wybodaeth.

Gofynnwn i'r rhieni gasglu eu plant yn brydlon ar ddiwedd y dydd (os ydych yn hwyr neu ag anhawster gyda'r grisiau gallwn wneud trefniadau gwahanol). Mae'n rhaid i bob plentyn yn Y Cyfnod Sylfaen gyrraedd a gadael yr ysgol gydag oedolyn cyfrifol. Mae'n rhaid i'r ysgol dderbyn llythyr neu alwad ffôn os bydd unrhyw newidiadau yn y drefn er mwyn sicrhau diogelwch eich plentyn.

Cysylltwch â'r ysgol am ragor o wybodaeth ar y Clwb Brecwast a'r Clwb Carco ar ôl ysgol.

PRESENOLDEB / GWYLIAU

Mi fydd sicrhau lefel uchel o bresenoldeb yn helpu eich plentyn manteisio ar y cyfleoedd eang sydd yn yr ysgol. Mae ESTYN wedi canmol YGG Llwynceilyn fel ysgol sy'n arwain y sector wrth ddefnyddio partneriaethau agos gyda rhieni, plant ac asiantaethau allanol er mwyn cynorthwyo plant lle mae presenoldeb yn effeithio ar eu haddysg.

Gofynnwn, os gwelwch yn dda, i sicrhau lefel uchel o bresenoldeb i'ch plentyn gan fod absenoldeb yn amharu ar gynnydd eich plentyn. Gofynnwn i'r rhieni ddod a'u plant yn brydlon i'r ysgol yn y bore. Gydag eithriad i'r dosbarthiadau Blynyddoedd Cynnar, dylai rhieni adael i'r athrawon arwain y plant at eu dosbarthiadau. Does dim angen i rieni fynd i mewn i'r ysgol heblaw i siarad gyda'r Prifathro neu'r ysgrifenyddes. Ar ddiwedd y dydd, gofynnwn i'r rhieni aros yn y lle priodol i gasglu eu plant.

Yn unfryd a chanllawiau'r Llywodraeth, dylai rhieni rhoi rhesymau dros absenoldeb eu plant. Mae hawl gan Prifathrawon codi cosb ar riant sy'n mynd a phlentyn allan o'r ysgol heb caniatâd. Os na chaiff yr ysgol reswm teilwng, bydd yr absenoldeb yn cael ei chyfri'n anawdurdodol.

| | | | |
|--------------|------------------|-------------------|---------------|
| <i>Tymor</i> | <i>Hydref 17</i> | <i>Gwanwyn 18</i> | <i>Haf 18</i> |
| | <i>96.5</i> | <i>94.8</i> | <i>95.4</i> |

GWYLIAU

Gweler datganiad newydd gan RCT am fanylion gwyliau yn ystod amser ysgol. Ni fyddwn yn caniatáu gwyliau os ydy presenoldeb eich plentyn yn cwmpo o dan 98%

Gwyliau 2017 / 18

| | Dechrau Tymor | Hanner Tymor Dechrau | Hanner Tymor Gorffen | Diwedd Tymor | Dyddiau |
|-----------------------------|----------------------|-----------------------------|-----------------------------|---------------------|----------------|
| Tymor Yr Hydref 2018 | Dydd Llun Medi 3 | Dydd Llun Hydref 29 | Gwener Tachwedd 2 | Gwener Rhagfyr 21 | 75 |
| Tymor y Gwanwyn 2019 | Dydd Llun Ionawr 7 | Dydd Llun Chwefror 25 | Gwener Mawrth 1af | Gwener Ebrill 12 | 65 |
| Tymor yr Haf 2019 | Dydd Llun Ebrill 29 | Dydd Llun Mai 27 | Gwener Mai 31 | Llun Gorff 22 | 55 |
| | | | | Cyfanswm | 195 |

Datganiad Yr Ysgol / Amcanion a Gweledigaeth

Teimlodd disgyblion a staff Llwyncelyn taw nawr oedd yr amser i ysgrifennu gweledigaeth newydd ar gyfer dyfodol yr ysgol. Roedd hyn yn dilyn dathliadau'r ysgol yn 60, y newyddion ein bod yn derbyn estyniad yn 2017 a'r faith bod nifer o arthwaon profiadol wedi ymddeol neu derbyn dyrchafiad. Man cychwyn oedd edrych ar ddyfodol ein plant heb anghofio hanes YGG Llwyncelyn (Pontygwaith) – rydym yn falch iawn o'r canlyniad :-

“ Datblygu plant y dyfodol ar wreiddiau ein gorffennol”.

Bwriad yr ysgol yw paratoi'r disgyblion yn feddyliol ac yn gymdeithasol ac i helpu nhw i ddatblygu moesau cryf ac i dyfu yn falch o'u Cymreictod a'u diwylliant.

'Eu Hiaith a Gadwant'

AMCANION

- ***Meithrin hunan-barch, dangos parch tuag at eraill ac eiddo eraill a pharch tuag at amgylchfyd ein disgyblion.***
- ***Meithrin balchder yn ein disgyblion – fel Cymry a disgyblion Ysgol Gymraeg Llwynceilyn.***
- ***Mynnu disgyblaeth dda – tu mewn a thu allan i'r ysgol.***
- ***Cynnig yr addysg orau posib i'n disgyblion gan hyrwyddo datblygiadau diweddar.***
- ***Helpu'n disgyblion i ddatblygu sgiliau meddwl annibynnol da ar draws y cwricwlwm wrth iddynt baratoi am addysg gydol oes.***
- ***Helpu'n disgyblion i ddatblygu safonau moesol cryf yn ogystal ag egwyddorion eang.***
- ***Helpu'n disgyblion ddysgu am ein treftadaeth hanesyddol a diwylliedig.***
- ***Darparu amgylchedd hapus a dymunol i'n disgyblion llo bont yn teimlo'n saff ac yn awyddus i weithio a dysgu.***
- ***Paratoi ein plant ar gyfer y byd gwaith yn feddyliol ac yn gymdeithasol.***
- ***Sicrhau cyfle cyfartal i a thegwch i bob disgybl yn yr ysgol.***
- ***Dysgu'n plant sut i fwynhau cymdeithasu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol wedi'u trefnu gan y staff.***

Gyda'n Gilydd – Disgyblion – Rhieni – Athrawon

Rydyn yn ystyried cyd-weithio gyda'r rhieni yn allweddol i hapusrwydd pob plentyn. Rydym yn sylweddoli ein cyfrifoldeb fel ysgol gan y nifer o rieni sydd wedi dewis anfon eu plant i Ysgol Gymraeg Llwynycelyn i gael addysg yn lle ysgol gyfagos. Rydym yn gwerthfawrogi'r berthynas gryf a chyfeillgar sydd wedi datblygu rhwng yr ysgol, rhieni a disgyblion.

Yr Iaith Gymraeg – Eu hiaith a Gadwant – Their Language is forever”

Rydym yn gofyn i rieni i gefnogi'r iaith Gymraeg a chadw mewn cof mai dyma yw un o gryfderau'r ysgol hon. Dylai'r plant wyllo rhaglenni teledu Cymraeg, darllen llyfrau Cymraeg, defnyddio'r iaith Gymraeg lle bynnag posib. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi creu llyfryn i gefnogi gwaith rydyn ni'n eu gwneud wrth i'r plant ddechrau ysgol. Er mwyn cefnogi gwaith cartref a gweithgareddau dosbarth Rhifedd ac leithyddol mae YGG Llwynycelyn wedi creu Apps Cymraeg, braint oedd ennill Gwobr Ddigidol Genedlaethol am y gwaith yma.

Budd Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw cyfrwng yr ysgol - yr iaith lle mae rhan fwyaf o wersi yn cael eu dysgu, yr iaith a siaredir gan y staff i gyd ar ddisgyblion ymysg ei gilydd.

Mae'r ffaith eich bod chi wedi dewis i'ch plant i Ysgol Gymraeg Llwynycelyn yn golygu bydd eich plentyn:-

- *Yn gallu siarad dwy iaith a phrofi dau ddiwylliant.*
- *Yn meddwl yn fwy hyblyg a bod yn fwy creadigol.*
- *Fwy o siawns yn y byd gwaith.*
- *Yn gallu cyfathrebu gydag ystod eang o bobl.*
- *Yn gallu cymryd rhan ym mhob rhan o fywyd y gymuned.*

(Mae croeso i chi ddod i'r ysgol i siarad ynglŷn ag addysg ddwyieithog i'ch plentyn ac i ddarllen dogfennaeth neu bamffledi am ein hysgol).

TREFN Y CWRICWLWM AC ASESU

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi'i seilio ar Fframwaith Y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm ar gyfer Ddyfodol Disglair. Mae gan y Cyfnod Sylfaen saith ardal dysgu lle mae gweithgareddau ysgogol a strwythuredig yn cael eu gwau i brofiadau dysgu. Mae Cwricwlwm 2008 (addasu yn raddol ar gyfer Dyfodol Disglair) yn canolbwyntio ar sgiliau i blant rhwng 7 a 11 mlwydd oed. Ers Medi 2013 mae'r ysgol hefyd yn cynllunio ar gyfer Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, yn ogystal a datblygu ein darpariaeth ar gyfer Y Fframwaith Digidol. Bydd eich plant yn cael y cyfle i astudio 11 pwnc yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol - 4 pwnc craidd (3 yn Y Cyfnod Sylfaen) a 7 pwnc sylfaen. Mae'r amser a addysgir y plant yn amrywio gyda'r Cyfnod Sylfaen yn derbyn 21.5 awr ar Adran Iau yn derbyn 22.5 awr yr wythnos. Bydd gwersi mewn Addysg Grefyddol yn ogystal â gwasanaethau boreol. Cysylltwch gyda'r ysgol os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn ag Addysg Grefyddol ac addoli.

Mae pob athro yn unigol yn cynllunio'r gwaith ar gyfer eu dosbarthiadau eu hunain. Maen nhw'n dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol a chynlluniau gwaith i bob pwnc sydd yn cyd-fynd law yn llaw gyda'r gofynion newydd. Bydd yr athrawon yn dilyn ein cynllunio hir dymor (Cornerstones / Cwricwlwm newydd) er mwyn sicrhau dilyniant a datblygiad o un dosbarth i'r llall a chynllunio yn drwyadl ar gyfer eu plant yn wythnosol yn nodi amcanion ymhob pwnc. Bydd y cynllunio hefyd yn dangos gwahaniaethu yn ddibynnol ar allu plant y dosbarth.

Mae Mathemateg yn cael ei ddysgu yn ôl gallu yn yr Adran Iau (ambell blentyn ym MI2) gyda nifer o blant yn cael eu targedu gan arweinydd ymyrraeth.

*Rydym yn dilyn lle bo'r pynciau craidd yn cael eu dysgu yn ystod sesiynau'r bore a'r pynciau sylfaen yn cael eu dysgu yn sesiynau'r prynhawn. **Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd (yn ogystal ag elfennau o'r Fframwaith Digidol) wedi'u hintegreiddio mewn i bob agwedd o'r cwricwlwm. Asesir ein dysgwyr yn erbyn datganiadau'r cwricwlwm ac o Fis Medi ymlaen yn erbyn criteria'r FFLIaRh.***

Bydd y Cyfnod Sylfaen yn cael eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae Saesneg yn cael ei chyflwyno ar ddechrau Blwyddyn 3. Mae gennym nifer o gyfleoedd all-gysiol sy'n allweddol i lwyddiant ysgol Gymraeg. Rydym yn cynnig amrywiaeth o glybiau chwaraeon, perfformio a thechnoleg fodern yn bennaf i'r Adran Iau. Rydym yn llwyddiannus yn Genedlaethol mewn sawl maes OND mae'r boddhad mwyaf yn dod wrth weld pawb, beth bynnag eu safon, yn chwarae a mwynhau trwy'r Gymraeg.

Mae asesiadau ar waith y plant yn cael eu cadw yn ystod cyfnod y plentyn yn yr ysgol gyda'r Uwch Dim yn monitro a llwybro cynnydd unigolion. Byddent ar gael i'w trafod yn nosweithiau agored i rieni. Yn ogystal mae'r ysgol yn gosod targedau i bob unigolyn a rhennir y rhain yn y nosweithiau agored. Cynhelir profion Cenedlaethol mewn Iaith a Rhifedd o Flwyddyn 2-6 yn flynyddol ac mae'r ysgol yn cynnal profion mewnol ac yn addasu ein darpariaeth o'r canlyniadau. Mae'r plant wedi'u gosod mewn dosbarthiadau yn ôl eu hoedran lle'n bosib. Mae gan rai dosbarthiadau oedrannau cymysg. O fewn y dosbarthiadau, yr athrawon sydd yn penderfynu ar eu grwpiau. Gall y grwpiau cael eu gosod yn ôl ffrindiau, gallu cymysg neu allu tebyg. Yn aml iawn mae grwpiau yn newid yn ystod y dydd yn ddibynnol ar natur y gwaith, e.e. gall plentyn fod mewn grŵp gallu tebyg ar gyfer y pynciau craidd ac mewn grŵp gallu cymysg ar gyfer gweddill y cwricwlwm.

ASESIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 2018

| Cyfnod Sylfaen | Ysgol | RCT | Cymru Gyfan |
|-----------------------|--------------|------------|--------------------|
| Sgiliau Iaith | 79.3 | 86.7 | |
| Dat Maths | 82.8 | 85.6 | |
| Pers / Cymdeithasol | 89.7 | 92.1 | |
| Dangosydd | 79.3 | 81.3 | |

| Cyfnod Allweddol 2 | Ysgol | RCT | Cymru Gyfan |
|---------------------------|--------------|------------|--------------------|
| Cymraeg | 91.7 | 92.2 | |
| Saesneg | 91.7 | 90.9 | |
| Mathemateg | 100 | 91.4 | |
| Gwyddoniaeth | 100 | 91.5 | |
| Dangosydd Craidd | 91.7 | 89.3 | |

ANGHENION ADDYSG ARBENNIG

Mae'r ysgol yn dilyn y Cod Ymarfer i'r disgyblion hynny sydd ag anghenion addysg arbennig. Y ALNCo sydd â chyfrifoldeb dros hyn yn yr ysgol yw Miss L Jô's. Yn yr ysgol hon ein hamcan yw i ddarparu i BOB PLENTYN. Mae hyn yn cynnwys y plant gydag anghenion addysg arbennig. Yn dilyn amcanion cyffredinol yr ysgol dymunwn wneud ein gorau i bob plentyn ac iddynt gael y gorau o'i haddysg. Gall y galw am addysg arbennig ddod o nifer o agweddau, yn cynnwys cyflawniadau uchel neu isel yn academiaidd, anawsterau corfforol, anghenion seicolegol, cefndir cymdeithasol, anawsterau dysgu penodol, sgiliau ymddygiad neu ieithyddol. Ar hyn o bryd nid yw'r ysgol yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Mae copi o'r polisi ADY cyflawn ar gael yn yr ysgol.

DIOGELU, IECHYD a LLES

Rydym yn cymryd pob gofal posib er mwyn sicrhau diogelwch ein plant. Os oes plentyn yn sâl neu'n derbyn anaf, yna mi fyddwn yn cysylltu, yn y man cychwyn a'r rhieni ac, os oes angen mynd a'r plentyn i'r ysbyty lleol.

Mi fydd yr ysgol yn rhoi moddion i blant mewn amgylchiadau arbennig yn unig, a hynny ar ôl derbyn caniatâd ysgrifenedig gan riant. Gofynnwch os oes problem a cheisiwn lle'n bosib helpu.

Ni chaniateir unrhyw blentyn i adael safle'r ysgol heb ganiatâd. Os oes newid i'r trefniadau arferol yna gofynnwn i rieni ddweud wrth Y Pennaeth neu athro / athrawes y plentyn blaen llaw.

Mae gan yr ysgol 'Iarwm lleidr' ac mae'r ysgol yn ymarfer dril tan bob hanner tymor.

Mae Nyrs yr ysgol yn ymweld yn rheolaidd ac mae'r ysgol yn gweithio'n agos efo'r Swyddog Lles.

Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd ar y safle heriol yma er mwyn sicrhau diogelwch y plant, y staff ac ymwelwyr i'r ysgol. Mae arweinwyr yr ysgol yn dilyn polisiau a chanllawiau cymorth Iechyd a Diogelwch RCT.

Mae gan yr ysgol canllawiau clir ynglŷn â threfniadau **Diogelu Plant**. Mae'r staff cyfan wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ac yn ymwybodol iawn o'u rolau yn y broses diogelu. Mae'r ysgol yn deall ei rôl ac yn cymryd y cyfrifoldeb o ddifri. Y Gwasanaeth Cymdeithasol neu'r heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio achosion sydd wedi cyfeirio gan yr ysgol - nid yr ysgol sy'n ymchwilio. Y Pennaeth yw'r Swyddog Penodedig ac mae posteri cyswllt ar gael o gwmpas yr ysgol.

Mae nifer o bolisiau lles / diogelu ayb ar gael yn yr ysgol

DIOGELWCH EIN PLANT A'N STAFF

Gofynnwn i ymwelwyr yr ysgol i ddefnyddio'r brif fynedfa ac adrodd i'r swyddfa i gofrestru. Os bydd angen iddynt weithio mewn rhan o'r ysgol gofynnwn am adnabyddiaeth. Cwestiynwn unrhyw berson dieithr yn yr ysgol.

Bydd y plant yn symud o gwmpas safle'r ysgol fesul dau, grwp, neu fwy.

Mae staff, staff cynorthwyol a goruchwylwyr cinio yn gofalu am y plant ar yr iard yn ystod yr amser chwarae ac amser cinio.

Mae'r athrawon yn arwain y plant at y bysiau.

Gofynnwn i'r rhieni sydd yn casglu eu plant ar ddiwedd y dydd aros yn y manau priodol.

Mae yna system ffonau i gysylltu gyda dosbarthiadau tu allan. Mae'r drysau a gatieu allanol erbyn hyn yn cael eu rheoli gyda chod. Mae system CCTV newydd yn gwylio'r holl safle

DISGYBLAETH A GOFAL BUGEILIOL

Yn Ysgol Gymraeg Llwynceilyn, rydym yn disgwyl i ddisgyblion ymddwyn mewn modd addas ar gyfer yr ysgol. Disgwylir iddynt gadw safonau uchel o hunanbarch, dangos parch tuag at yr ysgol a dangos parch tuag at eraill a'u heiddo. Mae cadw enw da'r ysgol yn hanfodol ar bob cyfri.

Ein hamcan yw i gadw safonau uchel o ddisgyblaeth ymysg y plant mewn amgylchedd positif, gyda phob gweithgaredd ysgol yn cyfrannu'n helaeth at eu hagwedd yn gyffredinol.

Rydym yn cysylltu dysgu ac addysgu da effeithiol gydag ymddygiad da.

Gweithredwn ar yr egwyddorion hyn

- Rôl yr athrawon yw hybu ymddygiad da
- Ymddygiad da yn y dosbarth
- O gwmpas yr ysgol
- Amgylchedd yr ysgol
- Dyletswyddau iard/bore
- Gofal Bugeiliol

Trefniadaeth yr ysgol wrth ddelio gydag ymddygiad aflonydd yw fel a ganlyn:-

1. Mae problemau yn cael eu datrys yn gyntaf gan yr athrawon dosbarth. Mae gan bob dosbarth eu rheolau eu hunain ers dechrau'r flwyddyn ysgol.
2. Bydd ymddygiad drwg parhaol yn cael ei adrodd nôl i'r Prifathro.
3. Bydd y broblem rhan amlaf yn cael ei ddatrys ar yr adeg hon. Os yn ofynnol, cysylltir gyda'r rhieni i'w hysbysu am y problemau ac i weithio tuag at ffordd ymlaen i'r disgybl.
4. Os yw'r broblem yn parhau yna bydd yr ysgol yn cyfeirio'r plentyn i asiantaethau allanol fel bod cymorth proffesiynol yn cael ei gynnig i'r plentyn.

GWRTH-FWLIO / YR HAWL I FOD YN HAPUS

Ein bwriad yw i wneud Ysgol Gymraeg Llwynceilyn yn le saff a hapus i bob disgybl. Rydym fel staff wedi ymrwymo i drechu bwlio ac i ddysgu ein plant i gadw llygaid barcod am arwyddion o fwlio o fewn yr ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi cael eu hyfforddi fel 'Arweinwyr Ifanc' a chanddynt statws uchel drwy'r ysgol. Bydd unrhyw achos o fwlio yn cael ei drin yn ddifrifol iawn. Gyda'n gilydd gallwn helpu.

GWAITH CARTREF

Yn ystod eu bywyd ysgol, mae gwaith cartref yn dod yn rhan o fywyd y plentyn. Mae gwaith cartref yn chwarae rôl bwysig i addysg gyflawn y plentyn. Dylai'r gwaith cartref fod yn bwrpasol a chael cyfraniad tuag at ddatblygiad addysgol y plentyn. Dylai'r gwaith cartref fod yn estyniad o'r gwaith yn y dosbarth a dylai cyfrannu at waith y plentyn. Mae'r plentyn yn dod i arfer gyda gwneud gwaith cartref fydd yn eu paratoi ar gyfer addysg uwchradd. Eleni mae'r ysgol wedi creu llyfryn newydd gwaith cartref sy'n cynorthwyo rhieni / gwarchodwyr a chryfhau ein cysylltiadau gyda'r cartref.

Mae cydweithrediad y rhieni yn hanfodol i ddatblygiad y plentyn. Ar hyn o bryd mae'r athrawon yn rhoi cyfieithiad o'r iaith bwysig i'r rhieni sydd ddim yn siarad Cymraeg. Mae'r ysgol hefyd yn rhan o rwydwaith 'Mwdl' a Purple Mash, sef gwefannau sy'n hysbysu'r rhieni ar waith a gweithgareddau'r ysgol, yn ogystal â thasgau gwaith cartref.

ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL/ADDYSG RHYW

Mae'r Corff Llywodraethol wedi penderfynu y dylai Addysg Rhyw gael ei gynnwys yng nghwricwlwm yr ysgol fel rhan o'r sbectrwm ehangach o Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth anghenion y plant wrth iddynt aeddfedu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ABCH nawr wedi'i amserlenni yn y dosbarthiadau ar draws pob cyfnod allweddol yn YGG Llwyncelyn gydag asiantaethau o du allan yn cefnogi'r ysgol a'r plant wrth iddynt fynd trwy'r datblygiadau hyn. Mae gwersi yn cynnwys amseroedd cylch ffurfiol ac anffurfiol lle bod y plant yn cael cyfle i leisio eu barn a'u teimladau. Gofynnwch i'r Pennaeth am wybodaeth o'r agwedd yma yn ein cwricwlwm.

NOSWEITHIAU AGORED

Cynhelir dwy Noson Agored yn ystod y flwyddyn academaidd i rieni - un yn ystod tymor yr Hydref i weld sut mae'r plant yn setlo yn y dosbarth ac i gwrdd â'r athrawon newydd. Bydd hwn yn gyfle i chi drafod targedau personol eich plentyn. Bydd Noson Agored hefyd yn nhymor y Gwanwyn er mwyn gwerthuso cynnydd eich plentyn ac i drafod y cynnydd yn eu targedau. Yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, bydd adroddiad llawn yn cael ei ysgrifennu ar eich plentyn ar ddiwedd y flwyddyn. Cewch gyfle i drafod yr adroddiad hwn pe dymunwch. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau 'meet and greet'. Mae hyn yn gyfle arbennig i chi gwrdd ag athro / athrawes eich plentyn ac iddynt gyflwyno themau / gwaith y dosbarthiadau a disgwyliaidau'r flwyddyn.

Mae gan Ysgol Gymraeg Llwynceilyn polisi Drws Agored, ac os byddwch byth yn teimlo eich bod angen trafod unrhyw broblem, yna gall trefniadau cael eu gwneud trwy law'r Prifathro.

CINIO YSGOL

Ni roddir caniatâd i blant fynd adre am eu cinio. Mae gan y plant ddewis o fwyta cinio wedi'i darparu neu ddod a brechdanau / bocs iach i'r ysgol. Hoffem i bob plentyn yn y Feithrin bwyta cinio ysgol gan ei fod yn rhan o'u hasesiadau.

Pris cinio ysgol yw £12.50 yr wythnos sydd yn daladwy ar fore Llun neu ar lein os gwelwch yn dda.

Dylech hysbysu'r ysgol os bydd alergedd gyda'ch plentyn tuag at fath o fwyd, lliw'r bwyd neu os yn llysieuwyr.

Os ydych chi'n credu bod gan eich plentyn hawl i ginio ysgol am ddim, yna cysylltwch gyda'r ysgol am ffurflen gais/ mae ffurlenni hefyd ar-lein ar we- fan RCTCBC

Bydd tîm o wyth goruchwyliwr yn edrych ar ôl y plant yn ystod yr awr ginio. Disgwylir yr un safonau uchel o ymddygiad da gan bob disgybl yn ystod yr awr ginio a disgwylir yn ystod unrhyw amser arall yn ystod y dydd. Mae'r goruchwylwyr yn cwrdd gyda'r Prifathro i drafod unrhyw broblemau er mwyn sicrhau dilyniant yn y ffordd maent yn ymateb i sefyllfaoedd gwahanol. Mae gennym lyfr cofnodi damweiniau ac adrodd yn ôl i athrawon. Byddwn yn cysylltu gyda'r rhieni os bydd unrhyw blentyn yn ymddwyn yn amhriodol, a gofyn iddynt gasglu eu plant yn ystod yr awr ginio a'u dychwelyd ar gyfer sesiwn y prynhawn os yn ofynnol

Corff Llywodraethol YGG Llwynceilyn – Medi 2018

| | | |
|---------------------|-----------|-----------|
| Mr B Cradle | Cymuned | Cadeirydd |
| Mr M Rees | Prifathro | |
| Mrs N Brown | Athro | |
| Mr P Rees | Cymuned | |
| Mr B Treharne Foose | Cymuned | |
| Mrs A Hawkins | Cymuned | |
| Mr D M James | AALI | |
| Mrs L Jerman | AALI | |
| Mr H Burge | Rhiant | |
| Mr M Cule | Rhiant | |
| Mrs O Hardwick | Staff | |

TEITHIAU ADDYSGOL

Yn YGG Llwynceilyn, teimlwn fod teithiau addysgol yn rhan bwysig iawn o gwricwlwm yr ysgol, ac rydym yn annog pob plentyn i gymryd rhan. Bydd staff ychwanegol yn helpu gyda gofal y plant ar y teithiau a bydd asesiadau risg yn cael eu gwneud cyn yr ymweliad. Bydd angen i'r plant wisgo gwisg ysgol ar y teithiau hyn, hyd nes clywir yn wahanol. Bydd angen caniatâd pob rhiant cyn i'w plentyn fynd ar y daith, ni fydd eich plentyn yn gallu mynd ar y daith oni bai fod yna ganiatâd y rhieni. Mae'r ysgol yn croesawi cyfraniadau i helpu gyda chost y teithiau.

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae gweithgareddau allgyrsiol yn rhan o draddodiad YGG Llwynceilyn. Mae'r staff yn barod iawn i roi o'i hamser fel bod y plant yn cael addysg gyflawn. Yr Adran Iau sydd yn elwa fwyaf o'r gweithgareddau hyn. Gall yr Urdd chwarae rôl bwysig iawn ym mywyd eich plentyn, trwy baratoi eitemau at yr Eisteddfod neu chwaraeon, neu dreulio penwythnos yn Llangrannog. Efallai bydd gofyn i'ch plentyn aros ar ôl oriau ysgol er mwyn ymarfer tuag at gystadlaethau neu dwrnameintiau neu gyngherddau, a disgwylir i chi wneud trefniadau priodol i gasglu'ch plant yn brydlon. Mae gan yr ysgol enw da yn lleol ac yn genedlaethol mewn meysydd perfformio, ac ymfalchïwn y gallwn fynd a'r iaith Gymraeg tu allan i furiau'r ysgol.

POLISI CODI TAL

Yn ystod y flwyddyn ysgol, bydd eich plentyn yn mynd ar wibdeithiau addysgol yn ddibynol ar waith y tymor. Bwriad y teithiau hyn yw ennyn diddordeb y plant yn y gwaith neu atgyfnerthu eu gwybodaeth flaenorol. Gofynnwn i chi gyfrannu rhywfaint o arian tuag at gost y teithiau. Bydd y gost yn cynnwys cludiant, mynediad i'r lle dan sylw ac am yr arbenigedd tra yno. Rydym yn gwahodd grwpiau drama i'r ysgol neu berfformwyr i'r ysgol er mwyn ehangu ar waith y dosbarth. Efallai bydd angen cyfraniad at yr achosion yma hefyd. Mae gennym gardiau cynilo yn yr ysgol

GWISG YSGOL

Rydym ni yn Ysgol Gymraeg Llwynceilyn yn credu bod gwisgo yn addas yn rhan o addysg dda, sydd yn cyfrannu at ddatblygu hunanddisgyblaeth. Mae'n bwysig fod y plant yn teimlo'n gydradd i'w cyfoedion. Mae gwisg ysgol yn gosod safonau uchel a threfn ac, er nad yn statudol yn yr oedran cynradd, yn gofyn i rieni am eu cydweithrediad llawn yn yr achos hwn. Gofynnwn i blant wisgo eu gwisg ysgol wrth berfformio yn gyhoeddus.

BECHGYN

MERCHED

GAEAF

Trowsus Llwyd
Siwmpwr Llwyd/Gwyrdd
Crys Gwyn
Sanau Llwyd
Esgidiau Du
Tei Ysgol

Sgert Llwyd/Trowsus Llwyd
Cardigan Llwyd/Gwyrdd
Flows Gwyn
Sanau Gwyn/Teits Du
Esgidiau Du Fflat
Tei Ysgol

HAF

Crys T Ysgol
Shorts Llwyd

Ffrog Wyrdd a Gwyn
Cardigan Wyrdd/Gwyn

GWISG ADDYSG GORFFOROL (Adran Iau)

Gofynnwn i'r plant newid ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Gofynnwn iddyn nhw wisgo crys-t gwyrdd neu gwyn a siorts tywyll neu gwyrdd. Gallen nhw wisgo tracwisg blaen os bydd y gwersi tu allan. Gofynnwn i'r merched wisgo gwisg nofio addas ar gyfer gwersi nofio ac nid bikini's.

GEMWAITH

Y staff dysgu sydd yn gyfrifol am les eich plant tra yn yr ysgol. Yn unfryd a rheolau ysgol a'r Awdurdod Addysg Leol dylai plant gyda thyllau yn eu clustiau wisgo stýds ac nid cylchoedd. Ni ddylai plant wisgo unrhyw emwaith o gwbl wrth wneud Addysg Gorfforol. Cysylltwch gyda'r ysgol os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â gwisgo gemwaith crefyddol.

Cyfleusterau Tai Bach

Mae adeilad YGG Llwyncelyn yn heriol tu hwnt. Mae'r ysgol, yn enwedig ein Cyngor Ysgol wedi gweithio'n ddi-stop i geisio gwella ein cyfleusterau. Erbyn hyn mae tai bach newydd o safon uchel yn y ddau adeilad i blant o'r Feithrin hyd BI-6 ac i staff yr ysgol. Rydym yn glanhau'r cyfleusterau yn ddyddiol.

Enwadau Crefyddol

Ar hyn o bryd, mae bron pob disgybl yn mynychu gwasanaethau boreol. Os na ddymunwch chi i'ch plentyn gymryd rhan mewn addoliad Cristnogol neu gredoau crefyddol eraill, gall y plentyn hwnnw gael eu hesgusodi o'r gwasanaeth.

Cyd- weithio

Pan fydd eich plentyn yn dechrau yn Llwynceilyn, rydych chi'n dod yn rhan o'r teulu. Rydym yn un teulu mawr hapus yn Llwynceilyn, ac er mwyn cadw'r ymdeimlad hwn gofynnwn am eich cydweithrediad. Mae presenoldeb a phrydlondeb eich plentyn yn bwysig iawn ac rydym yn disgwyl pob ymdrech i gadw at hyn. Mae agwedd a datblygiad eich plentyn yn ddibynnol ar y berthynas rhwng y cartref a'r ysgol. Nawr ac yn man, bydd yn ofynnol i ddisgyblu eich plentyn os dorrir rheol ysgol, ond gallwn eich sicrhau y caiff eich plant eu trin yn deg. Os yw eich plentyn yn poeni am unrhywbeth yn ystod eu cyfnod yn Llwynceilyn, yna peidiwch oedi i ffonio'r Prifathro yn syth i ddelio gyda'r mater yn syth. Weithiau mae achosion yn y cartref yn gallu effeithio eich plentyn yn yr ysgol, ac mae'n holl bwysig eich bod yn cysylltu gyda'r Prifathro i nodi'r pryderon hyn fel ein bod yn deall os bydd newid yn agwedd eich plentyn. Bydd y wybodaeth yma'n yn cael ei drin yn hollol gyfrinachol.

Cytundebau Cartref / Ysgol

Ar y safle Moodle mae copi o gytundeb y cartref / ysgol. Gofynnwn i chi ddarllen hwn a'i arwyddo cyn i'ch plentyn ddechrau yn YGG Llwynceilyn. Yn ogystal gofynnwn i chi arwyddo nifer o gytundebau i gefnogi gwaith yr ysgol e.e e-ddiogelwch, lluniau digidol, ymweliadau ayb.

CYFLE CYFARTAL

GOFYNION CYFREITHLON

- *Hyrwyddo chwarae teg yn nhermau cyfleoedd*
- *Hyrwyddo perthnasau da rhwng aelodau o hil a diwylliannau gwahanol*
- *Cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon*

Egwyddorion Llwynceilyn

Mae yna bedair egwyddor hanfodol i'n harwain wrth reoli'r gofynion:

- *Dylai pob plentyn gael y cyfle i gyrraedd y safonau uchaf posib a'r cymwysterau gorau posib tuag at eu dyfodol addysgol*
- *Dylai pob disgybl gael ein cefnogaeth lwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o hunaniaeth a diwylliant, i ddathlu newid a dangos parch tuag at eraill*
- *Dylai pob disgybl ddatblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth a gallu angenrheidiol i gyd-fyw mewn cymdeithas aml ddiwylliedig Cymraeg a byd-eang lle bo pawb yn ddibynnol ar ei gilydd.*
- *Rydym yn addasu yn ôl y gofyn i unigolion sydd ag anabledd - mae'n ddyletswydd i ni fel ysgol i addasu, nid i'r unigolyn.*

Polisi Gwrth-Hiliaeth

Mae gan bob plentyn yr hawl i dderbyn yr addysg gorau posib yn yr ysgol, gyda mynediad llawn i holl weithgareddau addysgiadol y cynigir. Rydym yn gwneud ein gorau glas i groesawi bawb. Mae adnabod a deall diwylliannau a chredoau gwahanol yn rhan o addysg thema ac ABCh. Rydym yn hyrwyddo'r Polisi ac yn ceisio sicrhau awyrgylch ac ethos agored, lle mae plant yn gyffyrddus i drafod amrywiaeth yn y gymuned a pharchu lles pawb. Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i gysylltu efo'r AALI os oes honiadau o hiliaeth yn digwydd.

Pontio – Pan mae'n amser i adael!!

Mae Ysgol Gymraeg Llwynceilyn yn bwydo plant i Ysgol Gyfun Cymer Rhondda. Mae yna berthynas agos iawn rhwng y ddwy ysgol ers blynyddoedd, ac mae llawer o'n rhieni yn gyn-ddisgyblion yno.

I sicrhau bod y broses pontio yn un llyfn, bydd Prifathrawon y ddwy ysgol, yn ogystal ag arweinwyr Blwyddyn 7 yn ymweld â'r ysgol er mwyn cwrdd â'r rhieni. Bydd hyn yn digwydd yn nhymor yr Hydref. Rydym yn ffodus iawn bod ysgolion clwstwr y Rhondda yn cyd-weithio'n agos iawn. Mae yna groeso mawr i rieni a disgyblion Blwyddyn 6 unrhyw amser, yn ffurfiol neu yn anffurfiol.

TREFNIADAETH GWNEUD CWYN

Mae'r Awdurdod Addysg Leol wedi rhoi cyfundrefnau mewn lle i ddelio gyda chwynion am gwricwlwm yr ysgol.

Mae copïau o'r dogfennau yma ar gael trwy ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ.

Mae yna berthynas glos rhwng rhieni, athrawon a phlant YGG Llwynceilyn a gofynnwn i chi ddechrau'r broses o gwyno trwy drafod yn gyntaf gyda'r ysgol. Defnyddiwch ein polisi Drws Agored lle gallwn wneud pob ymdrech i ddatrys problemau mewn modd cyflym ac anffurfiol.

Peidiwch ag oedi i gysylltu gyda'r ysgol os dymunwch weld unrhyw bolisi.

Mae llywodraethwyr, rhieni, staff a phlant Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn yn un teulu mawr hapus. Mae yna groeso mawr i'ch plentyn pan ddônt yn rhan o'r teulu hwn a hyderwn y gallwn wneud eu cyfnod mewn addysg gynradd yn un pleserus a chofiadwy.

DM Rees

